Digimap for Schools

Asesiad Rheoledig

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 4

Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn http://digimapforschools.edina.ac.uk

Ordnance Survey

EDINA

Digimap for Schools

http://digimapforschools.edina.ac.uk

Adnoddau Daearyddiaeth *Digimap for Schools*

Mae llwyddiant mewn asesiad daearyddiaeth rheoledig yn dibynnu ar ddefnyddio sgiliau daearyddiaeth yn effeithiol.

Teitl: Asesiad Rheoledig – Canfod Map

Cyflwyniad

Ym mhob Asesiad Rheoledig, mae angen map i ddod o hyd i'r ardaloedd allweddol fydd yn cael eu harchwilio yn ystod yr asesiad. Y lleoedd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y gwaith maes fydd y rhain yn ôl pob tebyg.

Cynhyrchu map gan ddefnyddio *Digimap for Schools.*

- Mewngofnodwch i *Digimap for Schools*.
- Defnyddiwch y teclyn **Chwilio** i ddod o hyd i le sy'n berthnasol i'ch gwaith cwrs.
- Defnyddiwch y bar Closio i glosio at lefel addas er mwyn i chi allu dangos y wybodaeth sy'n berthnasol i deitl eich Asesiad Rheoledig.
- Ystyriwch a ydych am ychwanegu:
  - Troshaen Grid Cenedlaethol. (Sgwariau wedi'u stacio ar far teclynnau)
- Anodi yn ôl yr angen gan ddefnyddio **Bar Teclynnau'r Anodiadau**. Gall hyn gynnwys:
  - Ychwanegu a labelu pwyntiau, ardaloedd, parthau byffro neu ffotograffau.
  - Mesur ardaloedd a phellteroedd.
  - Ychwanegu symbolau neu lwybrau.

Defnyddiwch y dewisiadau **Argraffu**, dewiswch dirwedd neu bortread, A4 neu A3, PDF, PNG neu JPEG. Cofiwch roi eich enw a theitl priodol cyn cadw ac argraffu'r map.

Adran methodoleg – gall gynnwys mapiau i amlygu pam y dewiswyd lleoliadau penodol er mwyn casglu data.

Prosesu gwybodaeth/data – gallwch ddefnyddio mapiau i drefnu tystiolaeth.

Cyflwyno data – gallwch ddefnyddio siapiau cyfrannol neu argraffu mapiau fel cefndir i ddata.

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*